**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher Mawrth 18fed 2026**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein drwy Microsoft Teams**

**Ymuno drwy Microsoft Teams:**
https://teams.microsoft.com/meet/38420646832571?p=e8LE3ioS4xCNzBG5X9
Cyfeirnod Cyfarfod: 384 206 468 325 71
Cyfrinair: Sr9L6ok6

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror 25ain, 2026 (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth am gyllid allanol Cronfa Effaith Balchder Bro Conwy a chymeradwyo gwaith i lunio cais
7. Derbyn gwybodaeth am asesiad AD ar gyfer 2026/27
8. Derbyn a chymeradwyo Asesiad Risg Ariannol ac Archwilydd Mewnol JDH Business Services
9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gwaith i ddatblygu dewisiadau CLG/prydlesi/rhydd-ddaliad ar gyfer asedau CBS Conwy:
   - **CLG Toiledau'r Promenâd gyda Chyngor Sir Conwy**
   - **Adeilad yr hen doiledau ar Ffordd yr Orsaf fel storfa arfaethedig**
   - **Partneriaeth Cae Pêl-droed Llanfairfechan gyda Chlwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan**
10. Derbyn a chymeradwyo grantiau s137
    - Darganfod Llanfairfechan ar gyfer Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan – cefnogaeth ar gyfer y gweithdai
    - Clwb Ieuenctid CBS Conwy – ffi flynyddol ar gyfer llogi ystafell £500.00.
11. Derbyn datganiad drafft a chymeradwyo ei gyflwyno ar gyfer proses ymgynghori Cynllun Datblygu Lleol Newydd CBS Conwy.
12. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Mawrth 18fed, 2026.

| |
|---|
| **<u>Taliadau ôl-weithredol (</u>wedi'u cytuno gan y llofnodwyr)** |
| **<u>Cyllid Hwb Cynnes Dydd Gŵyl Dewi CBSC Dydd</u>**<br>**1. Neuadd Gymunedol Llanfairfechan:**<br>• **£60.00 ar gyfer ystafell Lloyds Hughes ar gyfer sesiynau hwb dydd Llun**<br>• **£150.00 Prif Neuadd ar gyfer gigiau dydd Gwener 9-10yb**<br>• **£200.00 ar gyfer sain a thechnoleg yn ystod y gigiau**<br>**2. £400.00 ar gyfer Twmpath Ysgol Babanod**<br>**3. £57.60 ar gyfer JD Security**<br>**(Cyfanswm cost y prosiect ydy £1,854.33 Grant allanol £1,650.00 – cost i GTLl £204.33)**<br>**Adroddiadau diwedd prosiect ar gael yn y pecyn cyfarfod** |
| **4. Defib Store – padiau newydd ar gyfer diffibriliwr Seagrass. £125.00** |
| **5. Viking Raja eitemau swyddfa £196.45** |
| **Taliadau sy'n ddyledus** |
| **1. Cyflogau Staff Chwefror 2026 £5000.00 a thaliad chwarterol CThEF £1000** |
| **2. Worldcare - Sgipiau cymunedol £258.00** |
| **3. Menter Iaith - cyfieithiadau £200.00** |
| **4. Llanfairfechan yn Dathlu – castell neidio x 2 £155.00** |
| **5. Clwb Ieuenctid CBS Conwy – llogi ystafell (s137 grant)** |

| | |
|---|---|
| **6.** | **Cyfrif Busnes Amazon – allwedd cyfleustodau £2.75 / allwedd £13.54** |
| **7.** | **British Gas – llifoleuadau'r MUGA £136.98** |
| **8.** | **Marchnad Crefftwyr - llogi'r neuadd Medi - Rhag 2025, Chwe - Mai 2026, Medi - Rhag 2026 £1,800** |

**13.** Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
- Dim

**14.** Derbyn gohebiaeth:
- Dim

**15.** Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau

**16.** Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

---

**Nos Fercher Mawrth 18fed, 2026**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Nia Jones, Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Cyng Charlotte Murray; Cyng Andrew Hinchliff BEM; Cyng Chris Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Leena Farhat (ar-lein); Cyng Preben Vangberg; Clerc y Dref: Jayne Neal**

**1. Croesawodd y Maer Nia Jones bawb i'r cyfarfod a chytunwyd ar recordio'r cyfarfod at ddibenion cadw cofnodion.**
**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12) Cyng Rhys Griffiths; Cynghorydd Sir Penny Andow; Dirprwy Glerc y Dref: Callum Morrison** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Bu i Glerc y Dref, Jayne, a'r Dirprwy Faer, Sharne-Marie Bellis ddatgan diddordeb personol yn eitem 10 gan eu bod ar bwyllgor Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan. Bu i'r Cyng Andrew Hinchliff BEM a'r Cyng Chris Jones ddatgan diddordeb yn eitem 10 gan fod y ddau ar Bwyllgor Darganfod Llanfairfechan. Bu i'r Cyng Andrew Hinchliff BEM, Cyng Chris Jones a'r Cyng Christine Roberts ddatgan diddordeb yn eitem 10 gan eu bod yn Gyfarwyddwyr Pwyllgor y Neuadd Gymunedol. Bu i'r Maer Nia Jones ddatgan diddordeb yn eitem 10 fel Ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd Gymunedol. Cynghorwyd mai dim ond Clerc y Dref, Jayne Neal a'r Dirprwy Faer, Sharne-Marie Bellis oedd angen gadael yr ystafell ar gyfer pleidleisio ar eitem 10 gan eu bod yn rhan uniongyrchol o'r ceisiadau grant ar gyfer Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Dim yn bresennol** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror 25ain, 2026, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)**

**Roedd y rhain wedi'u dosbarthu yn flaenorol ac fe'u nodwyd wedi'u darllen. Cafodd y materion canlynol o'r cofnodion drafft eu trafod:**

**1. Nododd y Cyng Alun Rhys Jones fod angen gwneud newidiadau i'r cofnodion drafft mewn perthynas â'r eitemau canlynol: 5.2 – mae camsillafiad yn yr ail frawddeg yn y fersiwn Saesneg (newid 'shoes' i 'shows)'; 11. Mae'r ail frawddeg yn dechrau gyda 'Mae wedi gofyn am' – nid ydy hyn yn gwneud synnwyr gyda gweddill y frawddeg ac mae angen ei ddileu. 14 (gohebiaeth gan Ethos Universitas) – Roedd gwahoddiad i deithio i Antwerp sydd yng Ngwlad Belg, ond mae'r cofnodion drafft yn nodi 'Ffrainc' ac mae angen ei newid.**

**2. Dywedodd y Cyng Charlotte Murray ei bod wedi priodi yn ddiweddar ac y byddai'n hoffi i'r cofnodion a'r wefan adlewyrchu ei chyfenw newydd. Bydd Clerc y Dref hefyd yn hysbysu Gwasanaethau Democrataidd CBSC am y newid enw.**

**Cynigydd Cyng C Roberts Eilydd Cyng C Jones** **Yn unfrydol** **Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**6. Derbyn gwybodaeth am gyllid allanol Cronfa Effaith Balchder Bro Conwy a chymeradwyo gwaith i lunio cais**

**Roedd gwybodaeth am gyllid Balchder Bro wedi'i dosbarthu yn flaenorol ac fe'i nodwyd wedi darllen. Bydd Cyngor Conwy yn derbyn £1.5 miliwn o gyllid cyfalaf a bydd yn cael ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBS Conwy). Bydd Cronfa Effaith Balchder Bro yn darparu cyllid tymor byr ar gyfer gwelliannau ar unwaith i sicrhau bod lleoedd a mannau gaiff eu gwerthfawrogi gan gymunedau yn cael eu gwella. Mae'r Clwb Pêl-droed wedi cysylltu â Chyngor Tref Llanfairfechan gyda chais am gynnig ar y cyd i helpu i ddatblygu eu cyfleusterau newid. Mae amcangyfrifon**

cychwynnol yn dweud y bydd y prosiect hwn yn debygol o gostio rhwng £80,000 a £100,000. Pe bai'r Cyngor Tref yn gwneud cais ar y cyd â'r cais hwn, byddai'n helpu i ddangos bod ganddo gefnogaeth Llanfairfechan a byddai'n rhoi mwy o gefnogaeth i'r cais. Byddai hefyd yn barhad o'r bartneriaeth o brosiect etifeddol MUGA. Fodd bynnag, cafodd rhai pryderon eu codi ynglŷn â'r cynnig grant penodol hwn. 1) Nid oes gan Gyngor Tref Llanfairfechan brydles ar gyfer y safle o hyd. Mae'r Clwb Pêl-droed wedi cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ofyn a fyddai cais grant ar gyfer prosiect i ddatblygu safle nad oes ganddynt berchnogaeth/prydles hirdymor yn cael ei dderbyn. Nid ydy CBS Conwy wedi dweud na yn benodol, ond fe wnaethant rybuddio bod hon yn debygol o fod yn broses ymgeisio gystadleuol gan rybuddio fod angen i'r cais wneud yn siŵr y byddai'r prosiect yn cael ei gwblhau'n realistig o fewn yr amserlen gaiff ei darparu.

2) Amserlen – rhaid cyflwyno'r cais erbyn Ebrill 17eg sy'n amserlen dynn iawn. Yn ogystal, mae angen i'r prosiect gael ei gwblhau'n llawn erbyn mis Mawrth 2027. Mae sawl agwedd fel y broses dendro GwerthwchiGymru, prydles safle, ceisiadau cynllunio, gwaith adeiladu sydd ag amserlenni estynedig a heb eu diffinio. Mae'n debygol na chaiff y prosiect ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2027 ac yna byddai'r Cyngor Tref a'r Clwb Pêl-droed yn atebol am gost lawn y prosiect. Codwyd bod yna brosiectau eraill y gallai'r Cyngor Tref wneud cais amdanynt gan ddefnyddio grant Balchder Bro: mae angen gwaith cynnal a chadw ar y pagoda ac mae angen atgyweirio'r lloches ar y traeth. Cynigwyd bod Cyngor Tref Llanfairfechan yn awyddus iawn i weithio gyda'r Clwb Pêl-droed i'w helpu i ddatblygu eu cyfleusterau newid, fodd bynnag, nid ydy'r Cyngor Tref yn derbyn mai hon ydy'r gronfa grant gywir i wneud cais am y prosiect hwn. Gofynnodd y Cyngor Tref i aelodau staff weithio gyda'r Clwb Pêl-droed i helpu i ddod o hyd i gronfeydd grant amgen sy'n fwy priodol. Gofynnodd y Cyngor Tref i aelodau staff edrych ar ddatblygu'r Pagoda a'r lloches ar y traeth ar gyfer y gronfa Balchder Bro.

<u>Cynigydd Cyng C Murray Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi</u>

<u>7. Derbyn gwybodaeth am asesiad AD ar gyfer 2026/27</u>

Roedd gwybodaeth am asesiad AD wedi'i dosbarthu yn flaenorol ac fe'i nodwyd wedi'i ddarllen. Mae'r ymgynghorydd AD allanol y mae'r Cyngor Tref wedi bod yn ei ddefnyddio wedi ymddeol o hunangyflogaeth ac felly mae angen darparwr arall ar gyfer cefnogaeth AD ar y Cyngor Tref. Mae'r Cyngor Tref yn wynebu rhai heriau gan fod y tîm o staff wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac o fis Ebrill 2026 ymlaen bydd newidiadau mawr i gyfraith cyflogaeth. Mae angen i'r Cyngor Tref sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn. Mae Clerc y Dref wedi chwilio am ddarparwyr annibynnol, bach, lleol eraill sy'n debyg i'r rhai y mae'r Cyngor Tref wedi'u defnyddio o'r blaen, ond heb allu dod o hyd i ddarparwr tebyg. Mae dau ddarparwr cenedlaethol arall wedi'u canfod sef Un Llais Cymru a Peninsula. Mae Un Llais Cymru yn darparu cymorth ymgynghori am ddim, mae templedi dogfennau am ddim ar gael ac yn darparu cyfradd ymgynghori dyddiol am £478 y dydd. Byddai'n rhaid inni ddefnyddio'r gwasanaeth ymgynghori dyddiol er mwyn iddynt greu dogfennau penodol / diweddaru cytundebau ar ein cyfer / cynnal adolygiad i sicrhau ein bod yn cydymffurfio. Mae Peninsular eisoes wedi ymweld â swyddfa'r Cyngor Tref i gynnal 'asesiad effaith' am ddim (sydd wedi'i rannu gyda'r cynghorwyr) ac yn dangos y camau gweithredol y byddent yn eu dilyn i'n helpu i gydymffurfio. Mae cytundeb 12 mis ac mae ffi fisol o £255.67 (£3,068.04 y flwyddyn). Nodwyd y byddai Un Llais Cymru mewn cymhariaeth yn gallu darparu tua 6 diwrnod o wasanaeth ymgynghori am yr un gyfradd. Codwyd bod hyn yn gost fawr ac felly mae angen ei ystyried yn ofalus. Llesiodd y Cynghorwyr y dylem fod yn ofalus iawn gan ddweud ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn glir gyda'r hyn yr ydym yn ei gynllunio. Byddai'r trefniant hwn yn gytundeb 12 mis i sicrhau bod y ddogfennaeth yn gyfredol - ni ddylai fod unrhyw reswm dros ymestyn y cytundeb a rhaid dod ag unrhyw fwriad i wneud hynny i'r Cyngor Tref llawn. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth yn dod ym mis Ebrill ac felly mae angen gwneud penderfyniad yn y cyfarfod ar Ebrill 8fed. Cynigwyd dirprwyo adolygiad i'r pwyllgor staffio a fydd yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod ar Ebrill 8fed ar gyfer penderfyniad gan y Cyngor Tref llawn. Gofynnwyd i Glerc y Dref gael mwy o wybodaeth am y ffyrdd y mae Cynghorau Tref eraill yn ymdrin â'u cyfrifoldebau AD, y cyflenwyr maent yn eu defnyddio ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor staffio a'r Cyngor Tref yng nghyfarfod mis Ebrill. <u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

<u>8. Derbyn a chymeradwyo Asesiad Risg Ariannol ac Archwilydd Mewnol JDH Business Services</u>

Roedd y rhain wedi'u dosbarthu yn flaenorol a'u nodi wedi'u darllen. Nododd Clerc y Dref (Swyddog Cyllid Cyfrifol) fod yr Asesiad Risg Ariannol yr un fath ag yr oedd yr adeg hon y llynedd. Mae wedi ei godi yn y cyfarfod hwn yn hytrach na'r Cyfarfod Blynyddol er mwyn lledaenu'r llwyth o ddogfennau polisi sydd i'w hadolygu ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Nododd y Swyddog Cyllid Cyfrifol y bydd yr Yswiriant yn cynyddu gan fod angen yswiriant ar gyfer y toiledau cyhoeddus erbyn hyn. Mae cwmni yswiriant Zurich wedi gofyn am y costau newid fel bod modd iddynt ddarparu dyfynbris cywir. Mae Clerc y Dref wedi gofyn i GBS Conwy am yr wybodaeth hon ond rhoddodd swm dros dro o £50,000 i newid y darparwr yswiriant. Cytunodd y Cyngor Tref i ddatganoli'r penderfyniad i dderbyn dyfynbris yswiriant i'r Pwyllgor Amgylcheddol. Cytunodd y Cyngor Tref hefyd i ddefnyddio'r un Archwilydd Mewnol JDH Business Services Ltd ar gyfer yr archwiliad llawn 2025/26 sydd i ddod.

**Cynigydd Cyng C Roberts Eilydd Cyng C Murray Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**9.Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gwaith i ddatblygu dewisiadau CLG/prydlesi/rhydd-ddaliad ar gyfer asedau CBS Conwy:**

**9.1. CLG Toiledau'r Promenâd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Roedd y CLG wedi'i ddosbarthu yn flaenorol a'i nodi wedi'i ddarllen. Mae cynnydd bach mewn costau eleni, sydd eisoes wedi'u codi a'u hychwanegu at y gyllideb. Cododd Clerc y Dref (SCC) yr hoffent ofyn i CBS Conwy dalu'r nawdd mewn dau daliad. Bu i'r Cyngor Tref dderbyn CLG Toiledau'r Promenâd ac y dylid gwneud cais i rannu'r taliad nawdd.**

**9.2 Adeilad yr hen doiledau ar Ffordd yr Orsaf fel storfa arfaethedig – Roedd Clerc y Dref wedi derbyn ymholiad gan y Clwb Achub Bywyd o'r Môr yn gofyn a allent ddefnyddio'r toiledau fel storfa. Mae adeilad yr hen doiledau ar Ffordd yr Orsaf wedi'i drafod yn flaenorol ond nid yng nghyd-destun i'r Clwb ei ddefnyddio ac felly mae wedi'i godi unwaith eto. Mae Clerc y Dref wedi gofyn i CBS Conwy roi syniad i'r Cyngor Tref o'r hyn y byddai'n ei olygu i gymryd yr ased ac a ydy CBS Conwy yn dal i ystyried ei basio ymlaen i'r Cyngor Tref. Cytunodd y Cyngor Tref i ymchwilio ymhellach i hyn gyda'r syniad iddo gael ei ddefnyddio gan y Clwb Achub Bywyd o'r Môr fel cyfleuster storio.**

**9.3 Partneriaeth Cae Pêl-droed Llanfairfechan gyda Chlwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan – Roedd hwn wedi'i drafod yn flaenorol yn eitem 6 wrth ystyried cyllid Cronfa Balchder Bro.**

**Cynigydd Cyng C Roberts Eilydd Cyng C Murray Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**10. Derbyn a chymeradwyo grantiau s137**

**10.1 Darganfod Llanfairfechan ar gyfer Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan – cefnogaeth ar gyfer y gweithdai – Mae'r cais grant hwn ar gyfer £900 i dalu am gostau llogi ystafell yn Neuadd Gymunedol Llanfairfechan a llyfrgell Llanfairfechan trwy gydol Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan. Bu trafodaeth ynglŷn â'r wythnos gelfyddydau ac ar gyfer beth fyddai'r arian yn cael ei ddefnyddio: caiff ystafell Lloyd Hughes ei harchebu ar gyfer yr wythnos gyfan gan fod rhywbeth ymlaen yno bob dydd. Ar y 14eg a'r 15fed o Fai bydd angen archebu'r Brif Neuadd ar gyfer yr Arddangosfa Gelf Agored. Hefyd, caiff digwyddiadau ychwanegol eu cynnal sydd angen lle yn Llyfrgell Llanfairfechan. £800 ar gyfer llogi'r Neuadd Gymunedol a £100 ar gyfer y llyfrgell. Gadawodd Clerc y Dref a'r Dirprwy Faer, Sharne-Marie Bellis, yr ystafell pan ddaeth hi'n amser pleidleisio.**

**10.2 Clwb Ieuenctid CBS Conwy - ffi flynyddol ar gyfer llogi ystafell - Dyma'r grant blynyddol er mwyn i Glwb Ieuenctid Conwy allu parhau i redeg Clwb Ieuenctid wythnosol yn Llanfairfechan. Heb y grant hwn, mae'n debygol iawn y byddai'r Clwb Ieuenctid yn Llanfairfechan yn cau. Nodwyd hefyd bod y gronfa grant unwaith eto yn mynd tuag at logi'r Neuadd Gymunedol sy'n helpu i gadw'r holl gronfa wedi'i buddsoddi'n lleol.**

**Cynigydd Cyng P Vangberg, Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**Bu i Glerc y Dref a'r Dirprwy Faer, Sharne-Marie Bellis, ddychwelyd i Siambr y Cyngor.**

**11. Derbyn datganiad drafft a chymeradwyo ei gyflwyno ar gyfer proses ymgynghori Cynllun Datblygu Lleol Newydd CBS Conwy**

**Roedd y datganiad drafft wedi'i ddosbarthu yn flaenorol a'i nodi wedi'i ddarllen. Mae angen cymeradwyo a chyflwyno'r datganiad erbyn Mawrth 22ain. Nodwyd bod y cynghorwyr yn gallu cyflwyno eu hymatebion eu hunain fel preswylwyr unigol. Mae'r datganiad penodol hwn yn ddatganiad swyddogol fel Cyngor Tref. Gofynnwyd i Glerc y Dref yn flaenorol i ddod o hyd i'r wybodaeth am argaeledd meddygon teulu. Mae'r feddygfa leol wedi anfon gwybodaeth at y Cyngor Tref sydd wedi galluogi'r Cyngor Tref weithio allan bod hyn yn cyfateb i oddeutu 4.75 o feddygon teulu llawn amser. Mae hyn yn tua 1572 o gleifion i bob meddyg teulu. Bu i'r Clerc yna gymharu'r ffigwr hwn gyda ffigurau eraill ar gyfartaledd: yn Ewrop mae tua 1000 o gleifion i bob meddyg teulu, yn Lloegr mae tua 2258 o gleifion i bob meddyg teulu, yng Nghymru mae tua 2210 o gleifion i bob meddyg teulu (nid oes ffigurau ar gael ar gyfer Yr Alban na Gogledd Iwerddon). Roedd Clerc y Dref wedi bod mewn cysylltiad â'r feddygfa sydd wedi codi eu pryderon eu hunain. Yn dilyn y sgwrs yna, mae'r Clerc wedi drafftio'r canlynol i'w gyflwyno fel datganiad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd mewn perthynas â darpariaeth meddygfeydd: "cafodd pryderon am lefel y gwasanaeth eu codi gan nifer o drigolion. O ganlyniad, mae sgwrs gyda Rheolwr Meddygfa Plas Menai wedi awgrymu y byddai unrhyw gynnydd sydyn yn y boblogaeth yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth oni bai y bydd cyllid ychwanegol ar gael gan BIPBC i ateb y galw ychwanegol. Mae'r Cyngor Tref yn annog mwy o gyfathrebu â'r feddygfa i sicrhau y bydd y cyllid ar gael i gynyddu capasiti ochr yn ochr â'r adeilad RLDP arfaethedig." Cafodd hyn ei dderbyn gan y Cyngor Tref. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r datganiad drafft oedd wedi'i lunio ar gyfer yr adrannau canlynol: Darpariaeth yr ysgol gynradd; Systemau carthffosiaeth a draenio yn y dref; Isadeiledd yn ei gyfanrwydd; Ystyried y safle arfaethedig yng Nghae Ffynnon. Bu i'r Clerc dderbyn cyfarwyddiadau i gyflwyno'r datganiad.**

**Cynigydd Cyng C Murray Eilydd Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**12. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Mawrth 18fed, 2026**

**Roedd yr holl wybodaeth wedi'i dosbarthu ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.**
**Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng C Roberts Yn unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**
**13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio**
**Ni chafodd unrhyw fater cynllunio ei godi.**
**14. Derbyn gohebiaeth**
**Ni chafodd unrhyw faterion gohebiaeth eu codi.**
**15. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau**
**1. Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol - Aeth Shaun o SETS Ltd (darparwr goleuadau Nadolig) i'r cyfarfod a cafodd cynllun ei lunio ar gyfer eleni gan godi unrhyw faterion ddaeth i'r amlwg y llynedd. Ar y cyfan, roedd yr adborth am oleuadau Nadolig 2025 yn gadarnhaol iawn gan y trigolion. Roedd problemau gyda'r addurniadau yn troelli o gwmpas y polion lampau mewn gwyntoedd cryfion. Dywedodd Shaun fod posibl eu gosod yn dynnach ond pan fydd hyn yn digwydd mewn ardaloedd eraill gall yr addurniadau dorri. Mae gadael iddynt symud mewn gwyntoedd cryfion yn caniatáu i rym y gwynt leihau ac felly mae'n ymestyn hyd oes yr addurn yn fawr. Roedd goleuadau'r coed Nadolig wedi bod yn llwyddiant mawr a'r hyn yr oeddem yn edrych arno oedd troi'r goleuadau coch a'r coed gwyn wrth y groesffordd ar Hydref 30ain fel eu bod ymlaen ar gyfer yr Orymdaith Llusernau / Gŵyl Ferlod a Sul y Cofio. Yn dilyn Sul y Cofio, ar ddydd Llun Tachwedd 9fed, caiff goleuadau'r coed gwyn eu troi ymlaen eto ar Noswyl Nadolig. Bydd y goleuadau coch ar y goeden yn aros ymlaen nes caiff yr holl oleuadau eu diffodd ar ôl y Flwyddyn Newydd. Bydd Shaun yn dod i'r cyfarfod Cyngor Llawn ar Ebrill 29ain i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan gynghorwyr a darparu dyfynbrisiau. Mae Shaun wedi dweud nad ydy o'n meddwl y bydd cytundeb tair blynedd yn ddoeth eleni gan ein bod yn dal i ehangu. Mae'n awgrymu ein bod ni'n gorffen y prosiect ehangu goleuadau i Bendalar eleni ac yna ymgymryd â chytundeb tair blynedd fel ein bod yn ymwybodol o'r costau. Nodwyd mai'r gyllideb ar gyfer y prosiect hwn ydy £6,000 ac mae'n annhebygol y caiff unrhyw gyllid arall, ac eithrio ar gyfer chwyddiant, ei gytuno arno yn y dyfodol gan fod hon yn ganran briodol o gyllideb yr archebiant. Nodwyd y gallai fod cynnydd bach mewn costau eleni oherwydd y gwaith ehangu a bydd modd talu am hyn drwy'r cronfeydd wrth gefn.**
**Cyfarfod Pwyllgor y Neuadd Gymunedol – Mae gwaith ar y to wedi gorfod newid oherwydd problemau cyfathrebu. Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda'r prosiect eto i'w gwblhau. Mae'r Neuadd Gymunedol mewn trafodaethau â CBS Conwy i sicrhau bod mesurau grant yn dal i gael eu bodloni a bod taliadau grant yn ddyledus yn fuan. Nodwyd bod y datblygiad i adnewyddu'r neuadd wedi bod yn ardderchog a bod y rhan fwyaf o'r cam cyntaf i fynd i'r afael â'r materion tanwydd ac inswleiddio wedi'i gyflawni.**
**Gefeillio Trefi – Mae 36 o bobl ar hyn o bryd yn bwriadu ymweld â Pleumeleuc, Ffrainc eleni. Mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt yn dda a'r daith wedi'i threfnu ar gyfer mis Mai.**
**Cyfarfod Apêl Gorwel - Cyfarfod 7 awr. Roedd llawer o drafodaeth am ddarpariaeth teithio llesol a pha mor serth ydy'r safle gyda barn gymysg ymhlith y rhai oedd yn bresennol. Mae disgwyl i gadeirydd y cyfarfod roi eu dyfarniad ar yr apêl ddydd Gwener Mawrth 20fed.**
**Tân Gerddi Pendalar – Mae'r Maer Nia Jones wedi bod yn helpu i gyfeirio a chefnogi trigolion a gododd faterion am bobl yn llosgi teiars mewn gerddi ym Mhendalar. Nid oes unrhyw adroddiadau diweddar wedi bod am faterion pellach ar y mater hwn.**
**16. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.**
**Coed wedi disgyn yn yr afon – Mae rhai coed sydd wedi disgyn yn yr afon y tu ôl i dŷ ger y bont ar Ffordd Aber yn achosi rhwystr yn yr afon. Mae'r preswylydd wedi ceisio codi'r mater gyda'r awdurdodau perthnasol ond heb glywed yn ôl ac felly wedi codi'r mater gyda staff y Cyngor Tref. Rhoddodd y Cyngor Tref wybod am hyn i Gyfoeth Naturiol Cymru a daeth ein swyddog lleol i'r safle i helpu i ymchwilio i'r mater yn gyflym. Siaradodd y swyddog gyda'r trigolion hynny gafodd eu heffeithio wnaeth helpu i dawelu eu meddwl. Mae wedi cymryd tua 3 wythnos, ond mae bellach wedi'i glirio. Mae gennym berthynas weithio dda gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, felly dylai trigolion gysylltu gyda'r Cyngor Tref os oes angen cymorth arnynt. Nodwyd mai dim ond os ydy coeden sydd wedi disgyn yn debygol o achosi rhwystr y bydd CNC yn ei chlirio ac nid ydynt yn gallu ymgymryd â gwaith ataliol ar goed sy'n dal i sefyll.**
**Parcio ar lwybrau ger y goleuadau traffig / senotaff**
**Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn sawl cwyn gan drigolion yn adrodd am barcio amharchus o amgylch y senotaff. Mae'r Cyngor Tref felly wedi gorfod rhoi gwybod am y mater i dîm parcio CBS Conwy. Roedd y rhan fwyaf o'r parcio wedi'i wneud gan fusnes penodol. Cysylltodd Clerc y Dref â'r busnes i egluro'r sefyllfa a'r camau y bu'n rhaid inni eu dilyn. Dywedodd y busnes y byddent yn hysbysu staff i barcio mewn mannau eraill.**
**Palmant y tu allan i'r feddygfa**
**Nodwyd bod y palmant y tu allan i'r feddygfa yn anwastad fel pe bai slab wedi'i godi. Gallai achosi i unrhyw un faglu a bydd y Cynghorydd yn rhoi gwybod i CBS Conwy amdano.**

**Cwteri wedi'u rhwystro**

**Mae CBS Conwy wedi adrodd eu bod bellach yn gweithio'n adweithiol ar ddraeniau sydd wedi'u rhwystro ac wedi gofyn inni roi gwybod am unrhyw broblemau. Mae Dirprwy Glerc y Dref wedi gweithio gyda'r Swyddog Amgylcheddol i'w ddysgu sut i roi gwybod am ddraeniau sydd wedi'u rhwystro fel bod modd i'r Swyddog Amgylcheddol adrodd am bob problem pan fydd ar ei rownd ddyddiol. Mae hyn wedi bod ar waith ers rhyw 3 wythnos ac mae dwsinau o ddraeniau wedi'u rhwystro eisoes wedi'u hadrodd.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:40yh**